Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

13 Ionawr 2026

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cyllideb 2026/27, Ardoll ar Awdurdodau Cyfansoddol a Chyfraniadau Partneriaid |
| AWDUR: | Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC)<br>Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu cyllideb arfaethedig Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC) a'r Cynllun Twf ar gyfer 2026/27 (Atodiad A) i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w hystyried cyn cyfarfod y CBC ar 23 Ionawr 2026.

## 2. PENDERFYNIADAU A GEISIWYD

2.1. Ystyried y wybodaeth a'r penderfyniadau a geisiwyd yn Atodiad A.

## 3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'n ofyniad statudol i'r CBC gymeradwyo ei gyllideb, a dyraniad yr ardoll i'r cynghorau ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mewn cyfarfod o'r CBC erbyn 31 Ionawr yn flynyddol ac felly bydd atodiadau'r adroddiad hwn yn cael eu cyflwyno yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2026.

3.2. Rhoddir cyfle i'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y cynigion yn Atodiad A ac i graffu'r wybodaeth cyn i'r gyllideb gael ei chyflwyno i'r CBC.

ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad A: | Adroddiad i gyfarfod Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 23 Ionawr 2026 |
| Atodiad 1: | Cyllideb Refeniw 2026/27 Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru |
| Atodiad 2: | Cyllideb Refeniw 2026/27 y Cynllun Twf |
| Atodiad 3: | Cyllideb Cyfalaf 2026/27 y Cynllun Twf |

YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn galluogi'r is-bwyllgor i arfer ei bwerau i adolygu a chraffu ar y gofynion sy'n gysylltiedig â sefydlu cyllideb ac ardoll y CBC.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Awdur yr adroddiad.